# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**<u>Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ebrill 9 2024</u>**

**1.4.24 Presennol :-** Cynghorwyr : Aled Griffith ( Cadeirydd); Alwyn Gruffydd ( Is-Gadeirydd); Sandra Bodden Jones; Michael Roberts; Carol Hayes; Connor Westwood; Gwilym Jones; Dr Melfyn Edwards; Llywelyn Rhys Marian Roberts ( Clerc)

**2.4.24 Ymddiheuriadau. :** Cynghorydd John Gwynedd Roberts

**3.4.24 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Mawrth 2024**
Cyfeiriodd Cyng Carol Hayes at gofnod 1003/24 ynglyn â Scribe gan iddo fod ar y rhaglen unwaith eto. Eglurwyd bod sefyllfa swydd y Clerc yn achos arbennig ar y funud ac y dylid ymdrechu i hwyluso gwaith y Clerc.
**Penderfynwyd -** archebu rhaglen gyfrifo Scribe yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.
Cyfeiriodd Cyng Sandra Bodden Jones at gofnod 2303/24. Roedd yn awyddus i'r Clerc wirio i ble yn union fyddai'r cyfraniad yn mynd – i'r Urdd yn ganolog neu i gangen yr Urdd Cylch Porthmadog?
**Penderfynywd** – y byddai'r Clerc yn gwirio gyda swyddogion cangen Urdd Cylch Porthmadog yn gyntaf cyn gyrru'r siec.
**4.4.24 Datgan diddordeb.**
Cyng Alwyn Gruffydd – Cais cynllunio C24/0183/44/AC Arfryn, Tremadog

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

Gadawodd Cyng Alwyn Gruffydd y cyfarfod.

**5.4.24 Rhif Cais : C24/0183/44/AC**
Lleoliad :Land Adjacent To Arfryn, Tremadog, LL49 9RN
Bwriad: Cais i ddiwygio / dileu amodau ar ganiatad cynllunio C20/0683/44/LL fel a ganlyn:-

* Amod 2 - cytuno manylion llechi ar gyfer y to.
* Amod 3 a 6 - diwygio'r cynlluniau ar gyfer y fynedfa er gwneud defnydd o fynedfa bresennol i'r safle.
* Amod 4 - cyflwyno manylion dull gwaredu draeniad budr.

**Penderfynwyd – Dim gwrthwynebiad i amodau 3,4 a 6** ond mynnu bod yr ymgeisydd yn defnyddio llechi Cymreig lleol ( amod 2) yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Connor Westwood yn eilio.

Dychwelodd Cyng Alwyn Gruffydd i'r cyfarfod.

**6.4.24** Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno cais am ddatblygiad arfaethedig ar **yn Chwarel Minffordd, Penrhyndeudraeth, Porthmadog, LL48 6HP**.

Rhoddir rhybudd bod **Hochtief (UK) Construction Ltd** yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer newid defnydd rhan o'r chwarel bresennol er mwyn caniatáu storio, trin ac ailgylchu gwastraff anadweithiol a gwastraff nad yw'n beryglus am gyfnod dros dro.

**Penderfynwyd** – ymateb trwy ddatgan pryder am y pwysau traffig ychwanegol fyddai'r cynllun yma yn ei roi ar gymunedau lleol. Cyfeirwyd yn arbennig at bryderon ynglyn â sgil effeithiau llygredd; sŵn; llwch; nwyon peryglus yn osystal â thraul ar lonydd lleol yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Connor Westwood yn eilio.

DRAFT

**MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**

**7.4.24 Llenwi Tabl Cydnabyddiaeth Ariannol 2024-2025**
Cwblhawyd y tabl a chofnodwyd gan y Clerc fel a ganlyn :-

| | Penderfyniad Ebrill 2023 | Cynnig / Eilio | Penderfyniad Ebrill 2024 | Cynnig / Eilio |
|---|---|---|---|---|
| **Lwfans Cynghorwyr £150** | *** £156 (£124.80 wedi £31.20 Treth) oni gwrthodir** | **Gorfodol** | **£156 I bob aelod - dim treth** | **Gorfodol** |
| | | | **£52 Costau nwyddau traul** | **Gorfodol** |
| **£500 i aelodau Is Bwyllgor** | **Dim taliad** | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Aled Griffith | **Dim taliad** | Cyng Llywelyn Rhys<br>Cyng Gwilym Jones |
| **£500 i 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol** | **Dim taliad** | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Aled Griffith | **Dim taliad** | Cyng Llywelyn Rhys<br>Cyng Gwilym Jones |
| **Costau teithio<br>Hyd at 10k milltir** | **45c y filltir** | **Gorfodol** | **Gorfodol** | **Gorfodol** |
| **Costau teithio dros 10k milltir** | **25c y filltir** | **Gorfodol** | **Gorfodol** | **Gorfodol** |
| **Cynhaliaeth** | **£28 y diwrnod** | **Gorfodol** | **Gorfodol** | **Gorfodol** |
| **Llundain dros nos** | **£200** | **Gorfodol** | **Gorfodol** | **Gorfodol** |
| **Rhywle arall** | **£95** | **Gorfodol** | **Gorfodol** | **Gorfodol** |
| **Gyda theulu/ffrind** | **£30** | **Gorfodol** | **Gorfodol** | **Gorfodol** |
| **Iawndal am golled ariannol oherwydd presenoldeb** | **£57.20 hyd at 4 awr** | **Gorfodol** | **Gorfodol** | **Gorfodol** |
| **Iawndal am golled ariannol oherwydd presenoldeb** | **£114.40 o 4 i 24 awr** | **Gorfodol** | **Gorfodol** | **Gorfodol** |
| **Ad-dalu costau gofal plant ac oedolion dibynnol** | **Hyd at £403 y mis** | **Gorfodol** | **Gorfodol** | **Gorfodol** |
| **Taliad Pennaeth Dinesig<br>- hyd at £1,500** | **Taliad Pennaeth Dinesig hyd at £1,500 – llai Treth Incwm** | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Aled Griffith | **Taliad Pennaeth Dinesig hyd at £1,500 – llai Treth Incwm** | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Gwilym Jones |
| **Taliad Dirprwy Bennaeth<br>- hyd at £500** | **Dim taliad** | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Aled Griffith | **Dim taliad** | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Gwilym Jones |

**8.4.24 Cymeradwyo tanysgrifiad rhaglen gyfrifo Scribe**
Wedi trafod a dod i benderfyniad eisoes yn 3.4.24 uchod.

**9.4.24 Cymeradwyo defnyddio cyfeiriad Y Ganolfan i dderbyn gohebiaeth y Cyngor Tref.**
**Penderfynwyd –** gofyn caniatâd swyddogion Y Ganolfan cyn gweithredu ymhellach.

**MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

**10.4.24 Cyng. Llywelyn Rhys** – Cynnig cwyno i Gyngor Gwynedd am y goleuadau traffig - goleuadau coch - yn cael eu gosod yn ardal Porthmadog weithiau ar benwythnosau prysur yn y flwyddyn heb unrhyw waith yn cael ei wneud wedyn am ddyddiau.
**Penderfynwyd** – gweithredu ar gynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**11.4.24 Cyng. Gwilym Jones** - Cynnig caniatau i aelodau o Gyfeillion Borth y Gest i beintio mainc arosfa bws Borth y Gest.
**Penderfynwyd** – cefnogi dymuniad Cyfeillion Borth y Gest i beintio mainc arosfa bws Borth y Gest, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**12.4.24 Cyng Aled Griffith** – Cynnig gyrru llythyr i Premier Inn a Chyngor Gwynedd i gwyno am geir yn parcio ar lwybrau cerdded o gwmpas mynedfa i lwybr cerdded Y Cob.
**Penderfynwyd** – gweithredu ar gynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

Roedd Cyng Carol Hayes yn dymuno datgan ei bodlonrwydd fod y Clerc wedi defnyddio ffurf wreiddiol y Rhaglen – roedd yn gwerthfawrogi ei ffurf bresennol.

**13.4.24 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Rhaglen Mai 14 2024 = Mai 4 2024 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Aled Griffith** – cynnig cwyno am lefydd parcio bysus sydd wedi dwyn llefydd parcio ceir wrth Ganolfan Byw'n Iach, Glaslyn.
- **Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig gofyn am ddiweddariad ar sefyllfa Cors Borth y Gest
- **Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig cwyno am gyflwr toiledau Borth y Gest

DRAFT

- **Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig penderfynu ar gyfraniad y Cyngor Tref i ddathliadau Nadolig 2024 tref Porthmadog
- **Cyng Alwyn Gruffydd** – cynnig cwyno am ddirwyon parcio uniaith Saesneg gan y cwmni sy'n rheoli'r sustem barcio yn Y Ganolfan
- **Cyng Aled Griffith** – cynnig cwyno am gyflwr y llwybr tu ôl i B&M rhwng pont Britannia â'r giât i'r maes parcio

**14.4.24 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm)**.**
Penderfynwyd dileu pob eitem ar y rhestr cyn 13.3.24.

**GOHEBIAETH :**

**15.4.24 Yr Urdd – Cronfa Cyfle i bawb**
**Penderfynwyd** – derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Connor Westwood, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**16.4.24 – Senedd Cymru – Ymgynghoriad newydd**
**Penderfynwyd** – derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i Un Llais Cymru i ddatgan nad yw'r Cyngor yn cytuno gyda'r cwota rhywedd yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Carol Hayes yn eilio.

Ymddiheurodd Cyng Connor Westwood am adael y cyfarfod.

**17.4.24 – Cyngor Gwynedd – Tai ar Daith**
**Penderfynwyd** – derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i fynnu bod tref Porthmadog yn cael ei gynnwys ar y rhestr ac i holi pam nad yw Porthmadog yn cael ei chwota o dai newydd gan iddynt gael eu lleoli i gyd ym Mhenrhyndeudraeth ac yng Nghricieth gan fod diffyg tai hyfforddiadwy yn broblem ym Mhorthmadog yn ogystal ag ym Mhenrhyndeudraeth a Cricieth, yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**18.4.24 MATERION ARIANNOL :**

Ymddiheurodd y Clerc am gamgymeriadau yn y tablau isod a chywirodd nhw drwy ychwanegu'r eitemau priodol.

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog Banc Chwefror Mawrth 2024 | £ 53.39 |
| CYNGOR GWYNEDD | Incwm meysydd parcio 2023 | £9947.44 |

Ychwanegwyd :
CYNGOR GWYNEDD Ad-daliad torri gwair 2023 £1,064.50

**Taliadau wedi eu gwneud yn Chwefror a Mawrth ond heb eu cynnwys ar Raglen mis Mawrth :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyngor Gwynedd | Difa pla Cae Pawb | £ 300.00 |
| 2 | Cyfrifiaduron Porthmadog | Gliniadur newydd I'r Clerc | £ 713.80 |
| 3 | Y Ganolfan | Cyfarfodydd Tachwedd a Rhagfyr 2023 | £ 140.00 |
| 4 | Gareth Griffiths | Goleuadau Nadolig ar goed y Parc | £1,470.00 |

**Eitem 3 a 4 uchod wedi bod ar raglen Chwefror 2024**

**Awdurdodwyd y taliadau canlynol :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | LLinell Ffôn a Wê Clerc Mawrth 2024 | £ |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Mawrth 2024 | £951.96 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Mawrth 2024 | £237.80 |
| 4 | Neuadd Goffa Tremadog | cyfraniad | £100.00 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Merched y Wawr | cyfraniad | £100.00 |
| 6 | Clwb Chwaraeon Madog | cyfraniad | £1,000.00 |
| 7 | Y Ganolfan | cyfraniad | £5,000.00 |
| 8 | Y Gorlan Fach | cyfraniad | £100.00 |
| 9 | Cyngor Gwynedd | Torri llwybrau 2023-24 | £7227.26 |
| 10 | Cyngor Gwynedd | Gosod a thynnu coed Nadolig 2023 | £2367.00 |
| 11 | Cymru 1 Ltd | Cynnal a diweddaru'r wefan | £523.20 |
| 12 | Y Ganolfan | Cyfarfod Mawrth 12 | £40.00 |
| 13 | Cyfeillion Ysgol y Gorlan | Cyfraniad | £200.00 |
| 14 | Clwb Nofio PPB | Cyfraniad | £600.00 |
| 15 | Clwb Rhwyfo Port | Cyfraniad | £250.00 |
| 16 | Yr Wylan | Cyfraniad | £1,000.00 |
| 17 | Yr Urdd – Cyfle I bawb | Cyfraniad | £180.00 |
| 18 | CFFI Dyffryn Madog | Cyfraniad | £500.00 |
| 19 | Cylch Meithrin Porthmadog | Cyfraniad | £100.00 |
| 20 | Clwb Peldroed Porthmadog | cyfraniad | £500.00 |
| 21 | Cae Pawb | Cyfraniad | £250.00 |
| 22 | Radio Ysbyty Gwynedd | Cyfraniad | £50.00 |
| 23 | Urdd Gobaith Cymru | cyfraniad | £1,000.00 |
| 24 | Y Ffynnon | Hysbyseb tendr torri gwair | £14.00 |

- Eglurodd y Clerc fod Ceisiadau Ariannol gan fudiadau yn cael eu trafod a penderfynu arnynt yng nghyfarfod mis Chwefror bob blwyddyn fel bod y taliadau yn cael eu clirio cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gan fod y Clerc blaenorol wedi oedi a dal yn ôl ar y taliadau golyga hyn fod taliadau A137, A145 ac A19 2023-24 yn gorfod cario drosodd i gyllideb 2024-25. Roedd y Clerc yn mynegi pryder am oblygiadau hyn ar gyfer yr Archwiliad Allanol eleni.

( Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.15

Marian Roberts
( Clerc )
11.4.24

DRAFT